

Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 14.11.18 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

Presennol: Huw Davies (Cadeirydd), Dylan Thomas, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, Geraint Micah, David Griffiths, Malcolm Hills, John Griffiths, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. **Ymddiheuriadau:** Ian Williams.
3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10.10.18 fel rhai cywir.
Cynnig – Keith Carroll **Eilio** – John Griffiths **Arwyddwyd** – Huw Davies.
4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (10.10.18):**
 - a) "Llwyngwril Environmental Group" - Derbyn Cyfansoddiad y grŵp. Copi i gael ei anfon i Ian Williams.
 - b) Hysbysfwrdd → archebu ffenestr bersbecs newydd.
5. **Gohebiaeth:**
 - a) **Banciau Ailgylchu Papur / Cylchgronau** - gwybodaeth wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd fod y gwasanaeth yma yn dod i ben, gan nad yw bellach yn gynaliadwy i gynnig y gwasanaeth yma. Bydd y banciau yma yn cael eu symud yn ystod mis Tachwedd.
 - b) **Rhaglen Grant Dathliad Gaeaf Age Cymru** – gwybodaeth wedi ei dderbyn a'i anfon ymlaen i'r grwpiau perthnasol yn y pentref.
 - c) **Cyngor Gwynedd** - gwybodaeth wedi ei dderbyn ynglŷn â holiadur toiledau cyhoeddus. Cyngor Gwynedd yn awyddus i gael barn gymaint o bobl ac sydd yn bosib - ymatebion i'w cofrestru erbyn 17.12.18.
 - d) Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd – gwybodaeth wedi ei dderbyn.
6. **Materion Cynllunio:**
 - a) **NP5/69/394D - Wendy's, Llwyngwril** - Adleoli annedd presennol
Penderfyniad → dim sylwadau/gwrthwynebiadau gan y Cyngor Cymuned i gyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.
 - b) **NP5/69/LU56L - Sunbeach, Llwyngwril** - Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon (Arfaethedig) i ddefnyddio'r tir fel safle carafanau ynghyd ag adeiladu lleiniau caled a lonydd mynediad mewnol fel y gofynnir yn Amodau 4 & 5 o Drwydded Safle Carafanau H100346
Gadael i'r parc wybod fod y tir yma wedi cael ei ddefnyddio gan aelodau'r parc carafanau yn unig i gerdded eu cwn, dros y deng mlynedd ddiwethaf.
 - c) **NP5/69/354B - Maes y Crynwyr, Llwyngwril** - cais rhannol ôl-weithredol i gadw dwy ffenestr tô
Penderfyniad → dim sylwadau/gwrthwynebiadau gan y Cyngor Cymuned i gyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

7. Adroddiad Ariannol: Derbyniwyd Adroddiad Mis Hydref 2018 yn gywir.

Cynnig – John Griffiths **Eilio** – Kevin Goodchild **Arwyddwyd** – Huw Davies.

- a) £180.00 = Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer cyfrifon 2017/18 → Cyngor Gwynedd.
- b) £ 50.00 = Rhodd i'r grŵp "Llwyngwrl Environmental Group".
- c) £576.00 = Torri gwair y Llwybrau Cyhoeddus, Cof Golofn a Mynwent y Crynwyr am y flwyddyn ddiwethaf.

8. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:

Pwyllgor "Pîg yr Allt" → (cynrychiolwr o Gyngor Cymuned Llangelynnin, ag Arthog a Rheithor Llwyngwrl).

Adroddodd Geraint Edwards ei fod wedi mynychu cyfarfod "Pîg yr Allt" hefo'r Rheithor L Ford a Mr J Haycock, i drafod dau gais oedd wedi eu derbyn gan aelodau o'r gymuned (Llwyngwrl).

Penderfynwyd rhoi £80.00 yr un i'r ddau ymgeisydd tuag at weithgareddau addysgiadol.

Awgrymwyd fod Pwyllgor Pîg yr Allt yn cyfarwyddo'r gymuned fod cyfraniadau ariannol ar gael i bobl ifanc Llwyngwrl at bwrpas addysgiadol, drwy rhoi cais (mewn llythyr), i Bwyllgor Pîg yr Allt, yn egluro beth mae'r arian i fynd tuag at.

Dylai hyn gael ei hysbysebu yn well fel bod pawb yn y pentref yn cael yr un cyfle.

9. Adroddiad y Cynghorydd Sirol: Derbyniwyd adroddiad Louise Hughes.

Cadarnhaodd Louise ei bod am fynychu Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambren – 30.11.18 – ym Mhorthmadog.

10. Unrhyw Fater Arall:

- a) Arwydd ar ochr y ffordd wedi ei orchuddio gyda gordyfiant ger Glanaig, Llwyngwrl
Penderfyniad → cysylltu â Chyngor Gwynedd i'w gwneud yn ymwybodol o hyn.
- b) Arwydd ger giât Mynwent y Crynwyr yn beryglus ac angen sylw
Penderfyniad → cysylltu âg aelodau o Bwyllgor y Crynwyr i'w gwneud yn ymwybodol o hyn.
- c) Tyrchod yn ôl yn y cae chwarae!
- d) **Biniau Halen** – adroddodd Kevin Goodchild fod y biniau halen a oedd mewn cyflwr gwael wedi cael eu newid, a bod y biniau ar Ffordd y Gaer, Fferm y Nant, Tydfarch a Ffordd yr Eglwys angen cael eu hail llenwi.
Penderfyniad → cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt lenwi'r biniau halen yma.
- e) **Coed Nadolig** - Emlyn Roberts wedi cadarnhau y bydd coeden i Lwyngwrl eto eleni.
 - John Griffiths wedi cynnig trefnu i gael coeden i Roslefain.
 - Geraint Williams wedi cadarnhau ei fod yn gwneud y gwaith trydanol i gael y goleuadau ymlaen.
 - Coed Nadolig i gael eu rhoi i fyny yn Llwyngwrl a Rhoslefain ar yr ail benwythnos yn Rhagfyr.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 12.12.18 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

Arwyddwyd

Cadeirydd **Dyddiad**